**EITEM AR YR AGENDA: 8**

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**ADRODDIAD AR GYFER PANEL GWEITHREDOL YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB**

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD:** | 25ain Gorffennaf 2005 |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Y PRIF SWYDDOG TÂN** |
| **DIBEN YR ADRODDIAD:** | Ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau i Gynllun Iaith Gymraeg diwygiedig yr Awdurdod ar gyfer y cyfnod 2005 – 2010. |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Dyma Gynllun Iaith Gymraeg diwygiedig Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, sy'n adeiladu ar y cynllun cyntaf a gyhoeddwyd yn 1999.

1.2 Bwriad y ddogfen ddiwygiedig yw bod yn ddatganiad cyhoeddus o bolisi ac yn llawlyfr ymarferol i droi ato i'r staff a'r Aelodau. Er mai at y Gwasanaeth ei hun y mae wedi ei anelu'n bennaf, mae'n bwysig sicrhau bod y cyhoedd yn gallu cael mynediad at wybodaeth plaen a syml am yr hyn y gallent ei ddisgwyl oddi wrth y Gwasanaeth Tân ac Achub.

2. **Y CEFNDIR**

2.1 Yn ôl Cyfrifiad 2001, mae nifer y bobl sydd â sgiliau Cymraeg yn codi, yn arbennig ymhlith y grŵp oedran 3 – 15 oed. Felly, fel Gwasanaeth, mae angen rhagweld y bydd y cyhoedd yn galw am fwy a mwy o wasanaethau dwyieithog.

2.2 Fel dogfen bolisi yn bennaf y cafodd y Cynllun cyntaf ei lunio, ac er ei fod wedi ateb y diben yn iawn, mae wedi dod yn fwyfwy amlwg fod yr arddull sy'n eithaf ffurfiol wedi tueddu i wanhau ei effeithiolrwydd fel ffordd i wella'r gwasanaethau rydym yn eu cyflwyno.

2.3 Prif nod llunio'r Cynllun diwygiedig yw rhoi bywyd ac egni newydd i faterion yn ymwneud â'r Gymraeg. Mae'r cynllun newydd yn canolbwyntio ar 5 prif thema sef Polisïau, Cyflwyno Gwasanaethau, y Ddelwedd Gyhoeddus, Materion y Gweithlu a pherthynas â Phartïon Eraill.

2.4 Wrth ddatblygu'r Cynllun Iaith bydd y Gwasanaeth yn datblygu strategaeth sgiliau iaith a fydd yn cynnwys awditiau o'r sgiliau iaith presennol ac adolygiad o'r gofynion am sgiliau dwyieithog ymhob swydd yn y Gwasanaeth.

2.5 Mae'r ddogfen yn ceisio rhoi disgrifiad gonest a realistig o'r ffordd mae'r Awdurdod yn bwriadu gwneud cyfraniad sylweddol i Gymru ddwyieithog lle gall pobl ddewis byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

2.6 Yn unol ag Adran 14(1) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 bydd y Cynllun Diwygiedig yn cael ei gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg i gael ei gymeradwyo.

3. **ARGYMHELLIAD**

3.1 Bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r Cynllun Iaith Gymraeg Diwygiedig.